# Cymorth arall sydd ar gael

Mae'r dolenni canlynol yn eich tywys i wefannau allanol sy'n gywir ac yn gyfredol yn ein barn ni, ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am dudalennau a gaiff eu cynnal gan ddarparwyr allanol.

## CGGC – adnoddau am ddim

Fel y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru, nod CCGC yw galluogi sefydliadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.

### WCVA

- Gwybodaeth am gyllid
- Hyfforddiant
- Dolenni i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol
- Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru

### Cymorth y Trydydd Sector

- Llywodraethu Da
- Gwirfoddoli
- Cyllid Cynaliadwy
- Ymgysylltu a Dylanwadu

### Cyllido Cymru

- Cyllido Cymru yw'r llwyfan newydd ar gyfer chwilio am gyllid a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

## Busnes Cymdeithasol Cymru

Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau cymdeithasol, busnesau cydweithredol, busnesau cydfuddiannol a busnesau o dan berchnogaeth cyflogeion ac mae'n darparu gwybodaeth dechnegol i'r rheini sy'n ystyried dechrau neu weithredu busnes cymdeithasol.

## Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt)

Cefnogi twf busnesau cydweithredol a mentrau cymdeithasol

## Sefydliad Plunkett

Mae'r sefydliad yn anelu at gefnogi mentrau o dan berchnogaeth gymunedol yn y DU.

## Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (BCT)

Nod yr Ymddiriedolaeth yw galluogi trigolion i adeiladu ar y cryfderau a'r doniau yn eu cymunedau a chymryd camau i sicrhau bod eu hardaloedd yn lleoedd gwell byth i fyw ynddynt.

## Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn elusen sy’n gweithredu ledled y DU ac yn helpu cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda’i gilydd.

## Adfywio Cymru

Mae Adfywio Cymru yn rhaglen o dan arweiniad ymarferwyr sy’n helpu cymunedau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon, addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

## DTA Cymru

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru) yn sefydliad aelodaeth i ymarferwyr annibynnol sy’n hyrwyddo gwaith y rhwydwaith cynyddol o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru ac yn eu cefnogi.

## Open Food Network

Meddalwedd ffynhonnell agored wedi’i dylunio ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a hybiau bwyd cymunedol.